2023 - 2024

GROES-WEN

Ysgol Gynradd Primary School

Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School

Polisi Addysgeg

Wrth sefydlu Ysgol Newydd yr ydym wedi seilio ein polisiau a gweithdrefnau addysgeg a'r cwricwlwm ar gadwyn Groes-wen;

Cadwyn Groes-wen:



Ym mhob agwedd o fywyd yr Ysgol, bydd yr addysgeg yn cael ei harwain gan bwysigrwydd caffael iaith ac at y ddiben yma bydd yr Ysgol yn ffocysu yn glir ar;



Caffael ar Iaith:

Pwysigrwydd Dysgu dilyniant yn y patrymau ieithyddol gan gynnwys gwaith ffoneg, patrymau sillafu, rhediad y ferf, cystrawenau amrywiol ac ati. Bydd hyn yn ffocws ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad.

Addasu'r Dysgu:

Gan gynnal gwaith ymchwil ar y cyd gyda Chanolbarth Consortiwm y De, bydd yr Ysgol yn ffocysu ar sgaffaldi gweithgareddau'n gywir er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn derbyn her priodol.

Llafaredd:

Yn ein hysgol ni, bydd gweithgareddau llafaredd yn allweddol at lwyddiant pob disgybl felly ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad, bydd yr Ysgol yn ddisgwyl gweld gweithgareddau llafar.

Iaith Ddeuol:

Fel Ysgol sydd yn cynnwys ffrwd iaith Ddeuol 50/50 Cymraeg a Saesneg, mae hi'n bwysig wrth gyflwyno'r addysgeg ein bod yn esbonio'r model bydd yr Ysgol yn dilyn (Atodiad 1).

Hawliau Plant:

Mae hawliau plant yn rhan annotod o weithgareddau, gweledigaeth a gweithdrefnau'r Ysgol. Yn sicr wrth ystyried yr erthyglau, mae'r polisi yn ffocysu ar:

Erthygl 3

Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn

Erthygl 6

Mae gennych yr hawl i fywyd ac i dyfu i fod yn iach.

Erthygl 7

Eich hawl i enw a chenedligrwydd.

Erthygl 12

Eich hawl i ddweud beth ddylai digwydd ac i rywun wrando arnoch

Erthygl 15

Eich hawl i gyfarfod â ffrindiau ac ymuno â grwpiau a chlybiau.

Erthygl 23

Eich hawl i ofal arbennig a chymorth os ydych yn anabl er mwyn i chi fyw bywyd llawn ac annibynnol.

Erthygl 28

Eich hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol.

Erthygl 29

Eich hawl i fod y gorau gallwch fod.

Erthygl 30

Eich hawl i ddefnyddio eich iaith eich hun.

Nod y Polisi:

Nod y polisi hwn yw amlygu egwyddorion dysgu ac addysgu rhagorol o fewn yr ysgol. Mae'n berthnasol i bob aelod o gymuned yr Ysgol gan gynnwys disgyblion gydag anghenion Dysgu ychwanegol. Mae'n mynegi egwyddorion cyffredinol dysgu ac addysgu rhagorol ac yn hyrwyddo gwelliant parhaus. Yn annatod mae'n gorgyffwrdd â pholisïau eraill yr ysgol sy'n anelu at sicrhau addysgu rhagorol a hyrwyddo dysgu rhagorol.

Strategaeth y Cwricwlwm ac Addysgeg Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School:



4 Diben:

O fewn cwricwlwm yr ysgol, ymgorfforir pedwar diben Cwricwlwm i Gymru er mwyn sicrhau bod holl ddisgyblion yr ysgol yn datblygu yn

*ddysgwyr uchelgeisiol, galluog

*cyfranwyr mentrus a chreadigol

*dinasyddion egwyddorol a gwybodus

*unigolion iach, hyderus

Er mwyn cyflawni hyn, darperir ystod eang o brofiadau dysgu i ddisgyblion Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School er mwyn hybu eu dysgu, creadigrwydd, twf a'u datblygiad personol o fewn amryfal weithgareddau ein cwricwlwm. Dymunwn i'r disgyblion dyfu a datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus a dinasyddion cyfrifol, sy'n gallu gweithio'n annibynnol a chydweithio gydag eraill

Nodweddion Addysgu Rhagorol Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School:

Mae athro rhagorol yn ysbrydoli y disgyblion i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd priodol a weithiau tu hwnt i'r disgwyl mewn gwers. Mae'n barod i gymryd risg wrth gynllunio ond yn hyblyg i anghenion ac ymateb yr holl ddisgyblion.

Yn gyffredinol yr ydym yn ddisgwyl i staff dilyn y rhestr isod;

- Disgwyliadau uchel o bawb i osod safonau uchel
- Ffocws ar bwysigrwydd llafaredd ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad
- Addasu'r Dysgu i sicrhau her i bob disgybl
- Her - sy'n golygu bod pob disgybl yn cael eu hymestyn
- Cefnogaeth i bob disgybl i wireddu potensial
- Yn cynllunio profiadau ysbrydoledig
- Cyflymder y wers
- Perthynas rhyngbersonol rhagorol â'r disgyblion
- Brwdfrydedd yr athro yn ysbrydoli disgyblion
- Cynllunio rhagorol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ac yn magu chwilfrydedd
- Gweithgareddau rhyngweithiol lle mae'r disgyblion yn weithredol
- Cwestiynu effeithiol
- Rhannu nodau a meini prawf llwyddiant asesu gyda'r disgyblion
- Gwybodaeth mwysydd gadarn
- Methodoleg amrywiol

Egwyddorion Addysgeg Cwricwlwm i Gymru:

Mae ein cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr yn cael ei hategu gan deuddeg egwyddor addysgegol, sy'n datgan bod dysgu ac addysgu da yn (Cwricwlwm i Gymru);

1) canolbwyntio'n gyson ar ddibenion cyffredinol y cwricwlwm
2) rhoi her i'r holl ddysgwyr drwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus i gwrdd â disgwyliadau sy'n uchel, ond o fewn eu cyrraedd
3) defnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys addysgu uniongyrchol
4) defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol
5) golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb
6) creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu
7) dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu
8) ymestyn oddi mewn ac ar draws y Meysydd
9) atgyfnerthu yn rheolaidd y sgiliau trawsgwricwlaidd, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, ac yn darparu cyfleoedd i'w hymarfer
10) annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain
11) hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a chydberthnasau cadarnhaol
12) hybu cydweithio

Asesu ac Asesu ar gyfer Dysgu:

Mae'r Cwricwlwm a gweithdrefnau addysgeg gyda un diben yn unig; I alluogi pob disgybl i wneud cynnydd priodol er mwyn iddynt gyrraedd cam cynnydd 3 gyda'r gallu i ddangos eu llawn potensial.

Bydd asesu cyson yn digwydd gan gynnwys;

1) Gwaelodlin er mwyn darganfod Gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ac yna I ail sefyll y gwaelodlin er mwyn mesur cynnydd
2) Asesu non-verbal
3) Profion Cenedlaethol (I gyflawni dwywaith – Hydref a Mehefin)
4) Profion sillafu a darllen (Cymraeg a Saesneg)
5) Profion Progress in Maths (GFER)

Asesu ar gyfer Dysgu:

Mae pob ymarferydd o safon yn deal bod asesu yn digwydd pob dydd trwy'r dydd. Dydy asesu ddim yn arf ynysig ond cyfle I gyflawni darlun ar gynnydd disgybl ac yr ardaloedd I wella.

Bydd asesu ar gyfer Dysgu yn ein hysgol yn cynnwys;

1) Adborth effeithio – ar lafar ac yn ysgrifenedig
2) Cwestiynu effeithiol

3) Hunan-asesu
4) Cyfoedion yn asesu Gwaith ei gilydd
5) Disgyblion yn deall y ffordd ymlaen

Yn syml fe ddylai asesu effeithiol llywio cynlluniau disgyblion yr Ysgol er mwyn ymateb I ofynion yr unigolyn. Bydd yr Ysgol yn tracio cynnydd pob disgybl.

Gyda disgyblion MATh a disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol oherwydd anghenion Dysgu, bydd asesu yn ein cefnogi I fesur cynnydd a darganfod y ffordd ymlaen.

Nodweddion Dysgu Rhagorol:

Er mwyn Dysgu mae rhaid bod amgylchfyd yr Ysgol ac felly y dosbarth yn gywir. Yn sicr mae plant hapus yn fwy parod i weithio a mynd amdani. Fel mae'r 4 diben yn awgrymu, yr ydym eisiau dysgwyr hyderus, uchelgeisiol a mentrus.

Mae dysgwyr rhagorol yn arddangos y rhinweddau isod wrth ddysgu yn effeithiol ar draws y pynciau ac ymhob cyfnod o'u dysgu.

- cyd-weithio'n effeithiol
- meddwl a myfyrio ar eu dysgu ac yn deall sut i wella
- gwrando yn dda ar ddisgyblion ac athrawon
- trafod eu gwaith a'u cynnydd gyda'r athrawon
- ymateb i gwestiynau
- chwilfrydig ac yn gofyn cwestiynau
- anelu'n uchel ac yn ymroi hyd eithaf eu gallu
- canolbwyntio'n dda
- awyddus ac yn dangos eu bod eisiau dysgu
- gofyn am gymorth er mwyn gwneud cynnydd
- datblygu ffordd unigryw o ddysgu / adolygu
- dysgu o'u camgymeriadau
- deall pwysigrwydd a pherthnasedd beth maent yn ei ddysgu

Amgylchedd y Dosbarth:

Disgwylir yn Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School;

- amgylchiadau gwaith addas er mwyn sicrhau bod gan bob disgybl gyfle i gyrraedd ei lawn addewid/botensial
- amgylchedd groesawgar lle gellir meithrin cwrteisi, caredigrwydd a pharch • trefn a disgyblaeth
- amgylchedd lle gwerthfawrogir a dethlir llwyddiant a chyflawniadau disgyblion a myfyrwyr
- cyd barch rhwng dysgwyr ac athrawon; fel bod hyder yn cael ei fagu
- amgylchedd lle hyrwyddir agweddau positif tuag at waith
- cydnabyddiaeth o'r amrywiaeth o arddulliau dysgu sydd gan ddisgyblion a myfyrwyr a hynny yn cynnwys gwaith unigol, pâr a grŵp

• amgylchedd sy'n hyrwyddo gweithgareddau asesu ar gyfer dysgu; lle caiff disgyblion gyfleoedd i hunanasesu eu gwaith ac i fod yn rhan o'r broses gosod targedau
• cefnogaeth fentora ychwanegol i ddisgyblion sydd yn cael anawsterau gyda threfnu a chwblhau gwaith
• amgylchedd sy'n ymestyn a herio disgyblion MATh
• amrywiaeth o adnoddau o safon uchel
• arddangosfeydd ysgogol
• y sicrwydd yn yr Adran Dan 7 bod darpariaeth barhaus a darpariaeth wedi ei gyfoethogi
• yn yr Adran Dan 7 – cyd-bwysedd rhwng gweithgareddau dan do ac awyr agored

Cynllunio:

Rydym ar hyn o bryd yn arbrofi ac yn addasu ein cynlluniau i fod yn gyfredol ac i gyd-fynd gyda disgwyliadau'r meysydd dysgu a phrofiad. Teimlwn ei bod yn hanfodol i 'sbarduno disgyblion gyda chyd-destunau sydd o ddiddordeb iddynt ac sydd, o ganlyniad, yn cymell eu mwynhad wrth ddysgu. Ar ddechrau pob tymor, cynllunir cynllun tymor hir ar gyfer y cyd-destun sydd yn gyfuniad o lais y disgyblion a gofynion y meysydd dysgu a phrofiad. Sicrheir bod yna amryfal weithgareddau sydd yn cyd-fynd gyda'r cyfrifoldebau traws-gwricwlaidd ynghyd â'r meysydd dysgu a phrofiad.

TGCh:

Ar bob achlysur, bydd yr Ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o galedwedd a meddalwedd cyfrifiadurol er mwyn cefnogi gwaith y staff a disgyblion. HWB bydd ein ffocws wrth gadw Gwaith y staff a disgyblion yn ddiogel a bydd disgwyl I'r athrawon gwneud defnydd effeithiol o'r meddalwedd sydd ar gael i ysgolion. Ar unrhyw adeg bydd yr Ysgol yn barod I weithio'n rhithiol petai'r angen yn codi.

Lles:

Yn wraidd i bob dim bydd lles y disgyblion a staff. Mae Ysgol hapus yn creu naws arbennig o weithio ac yn sicr hyn yw'r nod tu ole in Gwaith. Bydd hi'n bwysig i'r staff i ffocysu ar addysgu rhagorol heb golli gafael ar reoli llwyth gwaith er mwyn iddynt lwyddo i gynnal safonau uchel.

Llofnod Pennaeth:

Dyddiad:15.06.23

Cadeirydd:

Fersiwn:	**1.0**
Adolygiad:	

ATODIAD 1: MODEL IAITH DDEUOL

Ein bwriad bydd i ddysgu trwy Gymraeg a Saesneg 50/50 ar gyfartaledd.

MDPh - Maes Dysgu a Phrofiad

Bydd plant sy'n dechrau yn yr ysgol h.y. o Feithrin / Derbyn yn defnyddio addysgeg CLIL (Content and Language Integrated Learning) yn dilyn y cyd-destun i greu profiadau thematig go iawn ar gyfer y disgyblion.

Meithrin - Iaith 1af

MDPh - Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Bydd hi'n bwysig i ddysgu'r ddwy iaith ac i roi union yr un amser i'r ddwy iaith o'r cychwyn cyntaf.

O Feithrin - Blwyddyn 1 Bydd angen ystyried anghenion y plant sydd yn dychwelyd i'r ysgol e.e. disgyblion sydd ddim yn gallu siarad Saesneg.

Saesneg/Cymraeg - Bydd y disgyblion yn derbyn gwersi yn y ddwy iaith.
MDPh - Mathemateg a Rhifedd (Saesneg ond yn gallu dysgu i gyfri yn y Gymraeg a rhigymau cyfri fel modd o gyflwyno'r Gymraeg yn ara deg).
MDPh - Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Saesneg ond yn gallu dysgu i ddefnyddio ambell air yn y Gymraeg fel modd o gyflwyno'r Gymraeg yn ara deg).
MDPh - Iechyd a Lles (Bydd elfennau yn y ddwy iaith gan ffocysu ar y thema neu wers ei hun)

Meithrin - Iaith Bartner

MDPh - Dyniaethau (Bydd elfen o Saesneg yn bosib i atgyfnerthu dealltwriaeth)
MDPh - Celfyddydau Mynegiannol (Bydd elfen o Saesneg yn bosib i atgyfnerthu dealltwriaeth)
MDPh - Iechyd a Lles (Bydd elfennau yn y ddwyiaith gan ffocysu ar y thema neu wers ei hun)

Derbyn - Iaith 1af

Saesneg/Cymraeg - Bydd y disgyblion yn derbyn gwersi yn y ddwy iaith
MDPh - Mathemaeg a Rhifedd (Saesneg ond yn gallu dysgu i gyfri yn y Gymraeg a rhigymau cyfri fel modd o gyflwyno'r Gymraeg yn ara deg)
MDPh - Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Saesneg ond yn gallu dysgu i ddefnyddio ambell air yn y Gymraeg fel modd o gyflwyno'r Gymraeg yn ara deg).
MDPh - Iechyd a Lles (Bydd elfennau yn y ddwy iaith gan ffocysu ar y thema neu wers ei hun)

Derbyn - Iaith Bartner

MDPh - Dyniaethau (Bydd elfen o Saesneg yn bosib i atgyfnerthu dealltwriaeth)
MDPh - Celfyddydau Mynegiannol (Bydd elfen o Saesneg yn bosib i atgyfnerthu dealltwriaeth)
MDPh - Iechyd a Lles (Bydd elfennau yn y ddwyiaith gan ffocysu ar y thema neu wers ei hun)

Blwyddyn 1 - Iaith 1af

Saesneg/Cymraeg - Bydd y disgyblion yn derbyn gwersi yn y ddwy iaith
MDPh - Mathemaeg a Rhifedd (Saesneg ond yn gallu dysgu i gyfri yn y Gymraeg a rhigymau cyfri fel modd o gyflwyno'r Gymraeg yn ara deg). **OND DECHRAU CYFLWYNO MWY O'R GYMRAEG GAN YSTYRIED Y WERS/THEMA/GWEITHGAREDDAU**
MDPh - Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Saesneg ond yn gallu dysgu i ddefnyddio ambell air yn y Gymraeg fel modd o gyflwyno'r Gymraeg yn ara deg) **OND DECHRAU CYFLWYNO MWY O'R GYMRAEG GAN YSTYRIED Y WERS/THEMA/GWEITHGAREDDAU**
MDPh - Iechyd a Lles (Bydd elfennau yn y ddwy iaith gan ffocysu ar y thema neu wers ei hun)
Cymraeg
Blwyddyn 1 - Iaith Bartner
MDPh - Dyniaethau (Bydd elfen o Saesneg yn bosib i atgyfnerthu dealltwriaeth) **OND DECHRAU CYFLWYNO MWY SAESNEG GAN YSTYRIED Y WERS/THEMA/GWEITHGAREDDAU**
MDPh - Celfyddydau Mynegiannol (Bydd elfen o Saesneg yn bosib i atgyfnerthu dealltwriaeth) **OND DECHRAU CYFLWYNO MWY SAESNEG GAN YSTYRIED Y WERS/THEMA/GWEITHGAREDDAU**
MDPh - Iechyd a Lles (Bydd elfennau yn y ddwyiaith gan ffocysu ar y thema neu wers ei hun)

Blwyddyn 2 - Iaith 1af

Saesneg/Cymraeg - Bydd y disgyblion yn derbyn gwersi yn y ddwy iaith
MDPh - Mathemaeg a Rhifedd (Saesneg ond yn gallu defnyddio cyfri yn Gymraeg a rhigymau cyfri fel modd o gyflwyno'r Gymraeg yn ara deg). **OND DECHRAU CYFLWYNO MWY CYMRAEG GAN YSTYRIED Y WERS/THEMA/GWEITHGAREDDAU**
MDPh - Gwyddoniaeth a Thechnoleg (yn flaenorol yn Saesneg ond yn gallu dysgu i ddefnyddio ambell air yn y Gymraeg fel modd o gyflwyno'r Gymraeg yn ara deg) **OND DECHRAU CYFLWYNO MWY CYMRAEG GAN YSTYRIED Y WERS/THEMA/GWEITHGAREDDAU**
MDPh - Iechyd a Lles (Bydd elfennau yn y ddwy iaith gan ffocysu ar y thema neu wers ei hun)

Blwyddyn 2 - Iaith Bartner
MDPh - Dyniaethau (Bydd elfen o Saesneg yn bosib i atgyfnerthu dealltwriaeth) **OND DECHRAU CYFLWYNO MWY SAESNEG GAN YSTYRIED Y WERS/THEMA/GWEITHGAREDDAU**
MDPh - Celfyddydau Mynegiannol (Bydd elfen o Saesneg yn bosib i atgyfnerthu dealltwriaeth) **OND DECHRAU CYFLWYNO MWY SAESNEG GAN YSTYRIED Y WERS/THEMA/GWEITHGAREDDAU**
MDPh - Iechyd a Lles (Bydd elfennau yn y ddwyiaith gan ffocysu ar y thema neu wers ei hun)

Blwyddyn 3 - Iaith 1af

Saesneg/Cymraeg - Bydd y disgyblion yn derbyn gwersi yn y ddwy iaith
Prif Iaith **MDPh** Mathemateg a Rhifedd bydd Saesneg.
Prif Iaith **MDPh** Gwyddoniaeth a Thechnoleg bydd Saesneg.
MDPh - Iechyd a Lles 50/50: Bydd cynnwys y wers/gweithgaredd yn arwain yr iaith.

Blwyddyn 3 - Iaith Bartner

Prif Iaith MDPh Dyniaethau bydd Cymraeg
Prif Iaith MDPh Celfyddydau Mynegiannol bydd Cymraeg.
MDPh - Iechyd a Lles 50/50: Bydd cynnwys y wers/gweithgaredd yn arwain yr iaith.

Blwyddyn 4 - iaith 1af

Saesneg/Cymraeg - Bydd y disgyblion yn derbyn gwersi yn y ddwy iaith
Prif Iaith MDPh Mathemateg a Rhifedd bydd Saesneg.
Prif Iaith MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg bydd Saesneg.
MDPh - Iechyd a Lles 50/50: Bydd cynnwys y wers/gweithgaredd yn arwain yr iaith.

Blwyddyn 4 - Iaith Bartner

.
Prif Iaith MDPh Dyniaethau bydd Cymraeg
Prif Iaith MDPh Celfyddydau Mynegiannol bydd Cymraeg.
MDPh - Iechyd a Lles 50/50: Bydd cynnwys y wers/gweithgaredd yn arwain yr iaith.

Blwyddyn 5 - Iaith 1af

UN NEWID - PE BAI PLENTYN EISIAU FFOCYSU AR Y GYMRAEG I DROSGLWYDDO I YSGOL UWCHRADD CYFRWNG CYMRAEG, BYDD CYFLE IDDYNT DDERBYN GWERSI TROCHI.

Saesneg/Cymraeg - Bydd y disgyblion yn derbyn gwersi yn y ddwy iaith
Prif Iaith MDPh Mathemateg a Rhifedd bydd Saesneg.
Prif Iaith MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg bydd Saesneg.
MDPh - Iechyd a Lles 50/50: Bydd cynnwys y wers/gweithgaredd yn arwain yr iaith.

Blwyddyn 5 - Iaith Bartner

UN NEWID - PE BAI PLENTYN EISIAU FFOCYSU AR Y GYMRAEG I DROSGLWYDDO I YSGOL UWCHRADD CYFRWNG GYMRAEG, BYDD CYFLE IDDYNT DDERBYN GWERSI TROCHI.

Saesneg/Cymraeg - Bydd y disgyblion yn derbyn gwersi yn y ddwy iaith
Prif Iaith MDPh Dyniaethau bydd Cymraeg.
Prif Iaith MDPh Celfyddydau Mynegiannol bydd Cymraeg.
MDPh - Iechyd a Lles 50/50: Bydd cynnwys y wers/gweithgaredd yn arwain yr iaith.

Blwyddyn 6 - Iaith 1af

UN NEWID - PE BAI PLENTYN EISIAU FFOCYSU AR Y GYMRAEG I DROSGLWYDDO I YSGOL UWCHRADD CYFRWNG GYMRAEG, BYDD CYFLE IDDYNT DDERBYN GWERSI TROCHI.
BYDD PLANT FEL HYN YN GALLU CAEL MYNEDIAD AT Y GWERSI YN Y FFRWD CYFRWNG CYMRAEG.
Saesneg/Cymraeg - Bydd y disgyblion yn derbyn gwersi yn y ddwy iaith
Prif Iaith MDPh Mathemateg a Rhifedd bydd Saesneg.
Prif Iaith MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg bydd Saesneg.
MDPh - Iechyd a Lles 50/50: Bydd cynnwys y wers/gweithgaredd yn arwain yr iaith.

Blwyddyn 6 - Iaith Bartner

UN NEWID - PE BAI PLENTYN EISIAU FFOCYSU AR Y GYMRAEG I DROSGLWYDDO I YSGOL UWCHRADD CYFRWNG GYMRAEG, BYDD CYFLE IDDYNT DDERBYN

GWERSI TROCHI. YM MLWYDDYN 6 BYDD PLANT FEL HYN YN GALLU CAEL MYNEDIAD AT Y GWERSI YN Y FFRWD CYFRWNG CYMRAEG.
Prif Iaith **MDPh** Dyniaethau bydd Cymraeg.
Prif Iaith **MDPh** Celfyddydau Mynegiannol bydd Cymraeg.
MDPh - Iechyd a Lles 50/50: Bydd cynnwys y wers/gweithgaredd yn arwain yr iaith.

Prosesau Pob Dydd:

Cymraeg a Saesneg am yn ail bydd Iaith y Dydd
Gwasanaeth Ysgol - Cymraeg gydag elfen o Saesneg
Gwasanaeth Adran Iaith Ddeuol - Cymraeg / Saesneg
Bydd y plant yn clywed cerddoriaeth Cymraeg yn aml
Bydd y staff i gyd yn rhugl yn y Gymraeg felly ar sail pa iaith bydd y plant yn clywed, Cymraeg bydd prif iaith oedolion yr ysgol.
Bydd arddangosfeydd yn ddwyieithog h.y. Nid oes angen cadw at un iaith yn unig wrth arddangos gwaith disgyblion